

# Wynebu'r Pasg

## Yr Anghydfurfiwr Dwyfol

Bore 'Sul y Blodau' ydoedd. Yng nghanol ei gynnwrf a'i dwrw, roedd rhybudd Iesu i'w ddisgyblion am ei frad, ei dioddefaint a'i atgyfodiad wedi ei anghofio'n llwyr. Er i'w wrthwynebwyr gwyno wrth Iesu am berygl yr emosiwn gwyllt, y tyrfaoedd, y croeso digamsyniol yr oedd yn ei fwynhau, rhyfeddol oedd ei ymateb yntau. Pe tawai'r mawl oddi ar wefusau ei ddisgyblion byddai'r creigiau mud yn ei ganmol, meddai. Ac yng nghanol yr Hosanna moliannus roedd y cymysgedd peryglus hwnnw o ganu gwladgarol a chrefydd a heriau'r awdurdodau i'w sylfeini yn atseinio i bob man.

Dyma orymdaith yr anghydfurfiwr Dwyfol; dyfodiad y 'Brenin tlawd'; dyma nesáu awr barnu tywysog y byd hwn; dyma ddechrau llwyr a fyddai'n arwain at frad, at fflangellu, at wadiad ei ddisgyblion, at ddioddefaint y groes, at goncwest a buddugoliaeth yr ARGLWYDD dros bwerau uffernol y fall.

Ond roedd hyn oll i ddod.

Y bore hwnnw mawl a mwyniant, poblogrwydd a chroeso oedd penawdau'r dydd.

Yn angof oedd geiriau Iesu bod yn 'rhaid iddo fynd i Jerwsalem, a dioddef llawer gan yr henuriaid a'r prif offeiriaid a'r ysgrifenyddion, a'i ladd a'r trydydd dydd ei gyfodi.' Ni allodd Pedr, meddiannwr y datguddiad Dwyfol am Feseia Duw, oddef y fath syniad. O'r cychwyn cyntaf roedd yn well gan y disgyblion, fel ninnau, Feseia'r fuddugoliaeth na Christ y

groes. Oherwydd o anwybyddu croes Crist hawdd fyddai gwadu'r alwad a roddodd Iesu ar ei eglwys. 'Os myn neb ddod ar fy ôl i, rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun a chodi ei groes a'm canlyn i...'

Crist heb groes. Eglwys heb groes. Onid dyna fyddai dymuniad ein calonnau heddiw? Crefydd ddi-dramgwydd, ffydd sy'n gofyn am gyfraniad tuag at yr achos ond nid codi'r groes i'w ganlyn ef.

## Yr anghydfurfwr cydymddurfiol

Peidiwch, da chi, a gofyn i ni sefyll allan, i beidio â chydymffurfio. Peidiwch â gofyn i ni wneud unrhyw beth fyddai'n gofyn i ni dynnu sylw atom ein hunain na disgwyl am grefydd sy'n hawlio gymaint gennym. Os byddem ni'n wahanol i'r diwylliant sydd o'n cwmpas fe fyddem yn colli pob hygredded, meddwn. Hygredded meddyliol. Hygredded moesol. Hygredded ysbrydol.

Mor ddoeth yw ein meddwl.

Oni welwch y gallasem o sôn am groes, am fynnu ein bod yn wahanol i ddiwylliant ein hoes golli aelodau? Ac os nad ydych chi

wedi sylwi, dy ni'n ddibynol ar y rhai nad ydynt yn mynychu ein hoedfaon – ein rhagflaenwyr a adawodd gymynroddion i'r achos a'r rhai na ddônt, ac ni ddeuant i unrhyw oedfa- i chwyddo ein 'haelodaeth' ac i gefnogi ein parhad.

Ond tybed?

Oni chollasom eisoes pob hawl i wrandawriad am yr union reswm ein bod wedi mynnu gosod gwerthoedd secwlar, gwerthoedd bydol, gwerthoedd byd di-Dduw fel strwythur ein deall, ffiniau ein moesoldeb, cyfyngiad ar beth mae'n ei olygu i fod yn ysbrydol. Aethom yn wystlon i'n diwylliant. Ac fel carcharor mewn gwersyll rhyfel, onid y ffordd orau i oeroesi ydyw peidio â thynnu sylw atom ein hunain?

Ond wrth i ni wynebu'r Pasg daw'r cyfan, y cwbl o'n gwerthoedd, o dan chwyddwydr grasol yr Arglwydd. Ac fe ddengys i ni fod y 'ffydd ddiogel' yr ydym wedi ei ddewis ynddo'i hun yn fradychiad

o'i waith drosom ac ynom. Wedi'r cyfan cawsom ein galw i godi'r groes i ganlyn ein Gwaredwr Iesu Grist y tu allan i'r gwersyll.

Dyweddodd Dietrich Bonhoeffer, y diwinydd a'r merthyr dewr:

'Y mae dioddefaint a gwrthodiad yn grynodedd cyflawn o groes Iesu Grist. Mae marwolaeth ar y groes yn golygu dioddefaint a marw fel rhywun sydd wedi ei wrthod a'i eithrio. A chan mai Pedr, craig yr eglwys, yw'r un euog yma, yn union ar ôl iddo gyffesu Iesu yn Grist, ac yn union ar ôl ei benodiad gan Iesu,

mae'n golygu bod yr eglwys o'r cychwyn cyntaf wedi cael ei thramgwyddo gan ddiodeffaint Crist. Nid ydyw eisiau Arglwydd o'r fath ac nid ydyw, fel eglwys Crist, am i'w Arglwydd roddi arni gyfraith diodeffaint.

Oherwydd hyn mae'n angenrheidiol i Iesu adrodd yn glir ac yn ddigamsyniol wrth ei ddisgyblion ei hun bod diodeffaint yn 'angenrheidiol'. Yn union fel nad yw'r Crist yn Grist heblaw am ei ddiodeffaint a'i wrthodiad, felly dim ond mewn diodeffaint a chael ein gwrthod, wrth gael ein croeshoelio gyda Christ, medrwn fod yn ddisgyblion iddo. Y mae bod yn ddisgybl fel ymrwymiad i berson Iesu Grist yn gosod y disgybl o dan gyfraith Crist, hynny yw o dan y groes.

... Ystyr hunan ymwadiad yw dewis gwybod dim oll ond Crist, ac nid ni ein hunain. Mae'n golygu gweld Crist yn unig, yr hwn sy'n mynd o'n blaen, ac nid y llwybr sy'n rhy anodd i ni. Felly hunanymwadiad yw dweud: 'Y mae'n mynd o'n blaenau; glynwn wrtho.'



Trwy ganiatâd pxhere.com/en/photo/269784